Mae Ysgol Henblas yn gymuned gyfeillgar a gofalgar lle mae gan blant gyfle cyfartal i dyfu, i ddatblygu ac i gyrraedd eu llawn botensial.

**Amcanion**

**<u>Ethos</u>**

- **Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n rhan o gymdeithas wâr, ddisgybledig sy'n pwysleisio egwyddorion moesol, ysbrydol a dyngarol.**
- **Meithrin parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir, cred a diwylliant.**
- **Creu ymdeimlad o falchder yn ein dwyieithrwydd a rhoi statws i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.**
- **Sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl, waeth beth fo'u hil, crefydd, rhyw, oed neu anabledd.**
- **Sicrhau bod pob partner yn cael ei glywed a'i ystyried, gan gynnwys y plant.**
- **Datblygu dealltwriaeth o'n cyfrifoldebau fel dinasyddion y byd, gan gynnwys cynaliadwyedd.**

**<u>Cynnwys a Threfniadaeth y Cwricwlwm</u>**

- **Darparu cwricwlwm sy'n eang, yn gytbwys ac yn berthnasol i anghenion presennol a dyfodol y plant.**
- **Yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod, datblygu dwyieithrwydd fel y gall y plant ddod yn aelodau cwbl integredig o gymdeithas.**
- **Sicrhau bod dilyniant a datblygiad yn y profiadau a ddarperir fel bod gan bob plentyn y cyfle i ddatblygu mewn dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau.**
- **Sicrhau bod pob agwedd o'r cwricwlwm yn cyfeirio at y dimensiwn Cymreig.**
- **Cynorthwyo'r plant i ddatblygu meddyliau bywiog a chwilfrydig, i gwestiynu a rhesymu, i ddatrys problemau ac i weithio'n annibynnol.**
- **Sicrhau bod pob disgybl yn datblygu yn eu defnydd o'r sgiliau allweddol o iaith, rhif a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.**
- **Sicrhau'r safonau uchaf posibl o ddysgu ac addysgu i godi safonau cyrhaeddiad ym mhob pwnc.**
- **Cynorthwyo'r plant i ddatblygu meddyliau bywiog a chwilfrydig, i gwestiynu a thrafod yn rhesymol, i ddatrys problemau a gweithio'n annibynnol.**
- **Sicrhau dulliau effeithlon o asesu cynnydd a chyrhaeddiad y plant.**
- **Sicrhau ffyrdd effeithlon o arfarnu darpariaeth a safonau'r ysgol i adnabod cryfderau ac agweddau i'w datblygu.**

**<u>Cyswllt</u>**

**Meithrin partneriaeth waith agos:**

- **gyda'r cartref**
- **gyda'r gymuned**
- **gydag ysgolion eraill (meithrin, cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig)**
- **gyda masnach a diwydiant**
    - **yr Awdurdod Addysg ac asiantaethau perthnasol eraill**